# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mercher, 9 Gorffennaf 2014**

Amser y cyfarfod:
**13.30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Agenda

(212)v3

**1 Cwestiynau i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (45 munud)**

Gweld y Cwestiynau

**2 Cwestiynau i'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi (45 munud)**

Gweld y Cwestiynau

**3 Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol (15 munud)**

Gweld y Cwestiynau

**4 Datganiad gan y Prif Weinidog: Bil Sector Amaethyddol (Cymru) (30 munud)**

**5 Dadl gan Aelodau Unigol o dan Reol Sefydlog 11.21(iv) (60 munud)**
**NDM5552**
**Ann Jones (Dyffryn Clwyd)**
**Andrew RT Davies (Canol De Cymru)**
**Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

**Bethan Jenkins (Gorllewin De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi'r awydd llethol ymhlith cefnogwyr pêl-droed i weld cyfleusterau sefyll diogel yn cael eu cyflwyno;

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio'n agos gyda chymdeithasau chwaraeon ac awdurdodau rheoleiddio i hyrwyddo cyfleusterau sefyll ddiogel yn stadia chwaraeon yng Nghymru; ac

Yn galw ar Lywodraeth y DU i ystyried cyflwyno cynllun peilot ar gyfer cyfleusterau sefyll diogel yng Nghymru.

**6 Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd ar ei ymchwiliad i reoli tir yn gynaliadwy (60 munud)**
**NDM5554 Alun Ffred Jones (Arfon)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd ar ei ymchwiliad i Reoli Tir yn Gynaliadwy, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 19 Mai 2014.

Nodyn: Gosodwyd ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad yn y Swyddfa Gyflwyno ar 2 Gorffennaf 2014.

**Dogfennau Ategol**
Adroddiad y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd
Ymateb Llywodraeth Cymru

**7 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)**
**NNDM5555**
**Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**
**Elin Jones (Ceredigion)**
**Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi'r Cod Gweinidogol: Cod Moeseg a Chanllawiau Gweithdrefnol i Weinidogion.

2. Yn nodi disgwyliad y Prif Weinidog bod yr holl Weinidogion, Dirprwy Weinidogion a'r Cwnsler Cyffredinol yn cydymffurfio â'r Cod.

3. Yn nodi'r adroddiad i'r Prif Weinidog ar gydymffurfiaeth y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd â'r Cod Gweinidogol mewn perthynas â Cylchffordd Cymru, sy'n cadarnhau bod y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd wedi torri'r Cod Gweinidogol.

4. Yn galw am benodi Dyfarnwr Annibynnol y Cod Gweinidogol er mwyn gwella tryloywder a, thrwy hynny, cynyddu hyder yn y rhai a gaiff eu hethol i swyddi cyhoeddus.

Mae'r Cod Gweinidogol: Cod Moeseg a Chanllawiau Gweithdrefnol i Weinidogion ar gael yma:
http://wales.gov.uk/docs//dfm/publications/110708ministerialcodeen.doc*[Saesneg yn unig]*

Mae adroddiad i'r Prif Weinidog ar gydymffurfiaeth y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd â'r Cod Gweinidogol mewn perthynas â Cylchffordd Cymru ar gael yma (Saesneg yn unig): http://www.assemblywales.org/cy/bus-home/bus-fourth-deposited-papers.htm?act=dis&id=257125&ds=7/2014

**Cyfnod Pleidleisio**

**8 Dadl Fer (30 munud)**
**NDM5553 Suzy Davies (Gorllewin De Cymru)**

Y daith at ddysg: y ddarpariaeth o drafnidiaeth i ysgolion a cholegau yng Nghymru

**9 Dadl Fer - gohiriwyd o 18 Mehefin 2014 (30 munud)**
**NDM5528 Nick Ramsay (Mynwy)**

Llais - Siarad ar ran pobl sy'n byw gyda Chlefyd Niwronau Motor yng Nghymru.

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mawrth, 15 Gorffennaf 2014

# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 2 Gorffennaf 2014 i'w hateb ar 9 Gorffennaf 2014

R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi cael ei gyflwyno yn Gymraeg.

(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)

## Gofyn i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

**1. Llyr Gruffydd (Gogledd Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar oriau agor fferyllfeydd? OAQ(4)0473(HSS)**W**

**2. Antoinette Sandbach (Gogledd Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf am y canllawiau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u darparu i fyrddau iechyd lleol ar Geisiadau Cyllido Cleifion Unigol? OAQ(4)0467(HSS)

**3. Lynne Neagle (Torfaen):** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU mewn perthynas â mynd i'r afael ag ymwrthedd i wrthfiotigau? OAQ(4)0471(HSS)

**4. Rebecca Evans (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa gynnydd sydd wedi cael ei wneud mewn perthynas â nifer y merched ysgol sy'n cael brechiadau yn erbyn y Feirws Papiloma Dynol yng Nghymru? OAQ(4)0472(HSS)

**5. Keith Davies (Llanelli):** A wnaiff y Gweinidog ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf am waith y Cynghorau Iechyd Cymunedol yn nhermau cefnogi profiad y claf yng ngorllewin Cymru? OAQ(4)0474(HSS)**W**

**6. Mike Hedges (Dwyrain Abertawe):** A wnaiff y Gweinidog amlinellu pa gynnydd sy'n cael ei wneud o ran cynyddu nifer y bobl hŷn bregus sydd yn cael eu galluogi i aros yn eu cartrefi eu hunain ar ôl gadael yr ysbyty? OAQ(4)0462(HSS)

**7. Christine Chapman (Cwm Cynon):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar Wasanaeth Gwaed Cymru? OAQ(4)0469(HSS

**8. Mark Isherwood (Gogledd Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar amseroedd aros ar gyfer triniaeth yng Nghymru? OAQ(4)0476(HSS)

**9. Gwyn Price (Islwyn):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y gweithlu gofal cymdeithasol yng Nghymru? OAQ(4)0464(HSS)

**10. Christine Chapman (Cwm Cynon):** Beth yw blaenoriaethau'r Gweinidog o ran gwella iechyd yng Nghwm Cynon? OAQ(4)0470(HSS)

**11. William Powell (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar wasanaethau meddygon teulu yn Sir Benfro? OAQ(4)0477(HSS)

**12. Sandy Mewies (Delyn):** Pa gynlluniau sydd gan Lywodraeth Cymru i gyflwyno deddfwriaeth i wahardd ysmygu mewn ceir sy'n cludo plant? OAQ(4)0463(HSS)

**13. Alun Ffred Jones (Arfon):** Pa gynlluniau cyfalaf sydd wedi cael eu cadarnhau yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr? OAQ(4)0468(HSS)**W**

**14. Peter Black (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar gynnydd o ran adroddiad yr Athro Andrews ar ofal yn Ysbyty Tywysoges Cymru ac Ysbyty Castell-nedd Port Talbot? OAQ460(HSS)

**15. Leanne Wood (Canol De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar berfformiad y Gwasanaeth Ambiwlans yng Nghymru? OAQ(4)0466(HSS)

## Gofyn i'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi

**1. Mike Hedges (Dwyrain Abertawe):** A wnaiff y Gweinidog ddatgan faint o fanciau bwyd sydd yng Nghymru? OAQ(4)0210(CTP)

**2. Gwyn Price (Islwyn):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar effeithiau benthycwyr llog uchel ar gymunedau tlotach yng Nghymru? OAQ(4)0195(CTP)

**3. Jenny Rathbone (Canol Caerdydd):** Pa effaith y mae diwygiadau i fudd-daliadau nawdd cymdeithasol ers 2010 wedi'i chael ar faint o arian sy'n cylchredeg yng Nghaerdydd? OAQ(4)0205(CTP)

**4. Sandy Mewies (Delyn):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar gynnydd tuag at gwrdd â thargedau Cynllun Cyflawni Cynhwysiant Digidol Llywodraeth Cymru? OAQ(4)0198(CTP)

**5. Mick Antoniw (Pontypridd):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar sut y mae Llywodraeth Cymru yn annog gwirfoddoli o fewn cymunedau? OAQ(4)0196(CTP)

**6. Llyr Gruffydd (Gogledd Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar Fil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)? OAQ(4)0207(CTP)**W**

**7. Mohammad Asghar (Dwyrain De Cymru):** Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i annog gwell perthnasau gyda chymunedau Mwslimaidd yng Nghymru? OAQ(4)0193(CTP)

**8. Mohammad Asghar (Dwyrain De Cymru):** Beth y mae'r Gweinidog yn ei wneud i fynd i'r afael â rhagfarn hiliol mewn cymunedau yng Nghymru? OAQ(4)0194(CTP)

**9. Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o effaith y dreth ystafell wely ar drigolion Canolbarth a Gorllewin Cymru? OAQ(4)0208(CTP)**W**

**10. Lindsay Whittle (Dwyrain De Cymru):** Beth yw strategaeth gyffredinol Llywodraeth Cymru o ran dileu tlodi plant erbyn 2020? OAQ(4)0200(CTP)

**11. William Powell (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar bwysigrwydd trosglwyddo gwybodaeth am ddatblygu cynaliadwy i genedlaethau'r dyfodol? OAQ(4)0206(CTP)

**12. Janet Finch-Saunders (Aberconwy):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar gynyddu cynhwysiant digidol yng Nghymru? OAQ(4)0209(CTP)

**13. Christine Chapman (Cwm Cynon):** Beth yw dull gweithredu Llywodraeth Cymru o ran mynd i'r afael â thlodi plant yng Nghymru? OAQ(4)0202(CTP)

**14. Lynne Neagle (Torfaen):** Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o'r effaith y mae'r newid i'r taliad annibyniaeth bersonol wedi'i chael ar bobl yn Nhorfaen? OAQ(4)0199(CTP)

**15. David Rees (Aberafan):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y cynnydd a wnaed yn ystod blwyddyn gyntaf y Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi? OAQ(4)0204(CTP)

## Gofyn i'r Cwnsler Cyffredinol

**1. Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Cwnsler Cyffredinol ddatganiad ar unrhyw drafodaethau y mae wedi'u cael gyda Swyddogion y Gyfraith ynglŷn ag effaith cyfraith arfaethedig yr Undeb Ewropeaidd ar Gymru? OAQ(4)0066(CG)**W**

**2. Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Cwnsler Cyffredinol roi diweddariad ar unrhyw sylwadau y mae wedi'u gwneud mewn perthynas ag achosion sydd gerbron y Goruchaf Lys? OAQ(4)0067(CG)**W**